

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Pierce Roberts

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn nos Fawrth, Hydref 2il, 2012

Presennol: Huw P Roberts (Cadeirydd), Huw Antur (is-gadeirydd), Karl Jones, Ian Trow, Catrin Roberts, Dewi Jones, Beryl Hughes Griffiths, Rhodri Jones

Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb a chytunwyd i anfon i longyfarch y Parch. Carwyn Siddall ar achlysur ei ordeiniad a'i sefydlu fel gweinidog yr Ofalaeth ar 29 Medi. **Gweithredu: Clerc**

1103 Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Bethan Williams, Heledd Jones, Arwel Lloyd Jones a'r Cyngorydd Sir, Alan Evans

1104 Derbyniwyd datganiadau buddiant ym materion priffyrdd Cyngor Gwynedd gan Dewi Jones.

1105 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd

1106 Cadarnhawyd cywirdeb

i. Cofnodion Cyfarfod Medi 4ydd, 2012

ii. Cofnodion cyfarfod is bwyllgor y fynwent 5/9/12

1107 **Materion yn codi :** Cytunwyd i sefydlu union gyfrifoldeb y Cyngor ym mater perchnogaeth a diogelwch Porth yr Eglwys ac i weithredu yn ôl yr wybodaeth a geir. Mae angen trwsio rhywfaint ar y railings a chytunwyd i wneud hyn pan ddaw'r cyfrifoldebau'n eglur. **Gweithredu: Clerc**

1108 **Gohebiaeth:**

Darllenwyd llythyr ymddiswyddiad Ms Bethan Williams o'r Cyngor a'i gwerthfawrogiad o'r profiad o fod yn gynghorydd cymuned. Diolchwyd i Ms Williams am ei chyfraniad a dymunwyd yn dda iddi wrth iddi fudo o'r ardal. Dilynir y drefn i lenwi'r sedd wag: yn y lle cyntaf mae gwahoddiad i ddarpar ymgeiswyr alw etholiad; os nad oes galw am etholiad, yr ail gam yw gwahoddiad i ddarpar gynghorwyr roi eu henwau i'r Clerc i'w hystyried ar gyfer cael eu cyfethol gan y Cyngor Cymuned. **Gweithredu: Clerc**

Gwynedd:

- (1) Ymatebwyd i gais am farn ar Wasanaeth Priffyrdd y Cyngor. **Gweithredu: Clerc**
- (2) Derbyniwyd gwybodaeth am waith a fydd yn cychwyn yn fuan i uwchraddio maes parcio'r ysgol gynradd.
- (3) Derbyniwyd gwybodaeth am y grant Diffyg yn y Cyfrif Claddu.
- (4) Derbyniwyd gwybodaeth am ymgynghoriad yn Nolgellau ar Orchymyn Rheoli Cŵn. Gan nad oedd yn bosib i neb fynychu'r cyfarfod, cyfarwyddwyd y Clerc i fynegi cymeradwyaeth y Cyngor i fabwysiadu'r Gorchymyn. **Gweithredu: Clerc**
- (5) Rhoddwyd ystyriaeth i Strategaeth Partneriaeth Tai Gwynedd a chyfarwyddwyd y Clerc i ymateb. **Gweithredu: Clerc**

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Pierce Roberts

Parc Cenedlaethol Eryri

- 1) Cadarnhawyd y penderfyniad i gefnogi cais am estyniad i adeilad amaethyddol yng Nghoed Talog.
- 2) Derbyniwyd gwybodaeth am wrthod cais cynllunio am dyrbin gwynt ar dir Garth Isaf.
- 3) Derbyniwyd gwybodaeth am apêl Garth Isaf yn erbyn penderfyniad y Parc i wrthod caniatâd cynllunio am dyrbin gwynt.
- 4) Derbyniwyd gwybodaeth am gynhadledd ymgynghorol Celyn, Tegid a Thryweryn (10/10/12). Cytunodd y Cadeirydd i gynrychioli'r Cyngor.

Un Llais Cymru

- 1) Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Ardal 26/9/12 lle bu trafodaeth ar ymgynghoriad presennol y Bwrdd Iechyd ar ad-drefnu. Mae'r Cyngor Cymuned eisoes wedi ymateb. Roedd pryder am ddibyniaeth y Bwrdd Iechyd ar yr Ambiwllans Awyr yn ystod oriau'r nos gan mai elusen yw'r gwasanaeth hwn. Roedd pryder hefyd am y diffyg gofal ym Meirionnydd i gleifion sy'n dioddef o ddementia dwys.
- 2) Trafodwyd yr holiadur am hyfforddiant i gynghorwyr. **Gweithredu: Clerc**

Arall:

- 1) Derbyniwyd ymateb oddi wrth Gymdeithas Tai Clwyd am gŵn tenantiaid yn baeddu cwrt y Neuadd Bentref. Gan fod y broblem yn parhau hyd yn oed ar ôl ymweliad swyddogion Tai Clwyd, cytunwyd i ofyn i Tai Clwyd i gadw'r achos ar agor. Cytunodd Dewi Jones i ddilyn y gŵyn a anfonwyd at Gyngor Gwynedd. **Gweithredu: Clerc, Dewi Jones**
- 2) Toiledau: Roedd Huw Antur wedi cadarnhau wrth swyddogion Gwynedd bod y Cyngor Cymuned wedi derbyn trwydded ganddynt i fod yn gyfrifol am y toiledau yn y pentref. Darllenwyd llythyr oddi wrth aelod o'r cyhoedd o Swydd Gaer yn canmol y ddarpariaeth a glanweithdra'r toiledau, gan gyfeirio'n benodol at waith ardderchog Mr Aled Richards.
- 3) Derbyniwyd gwybodaeth fod yr afon yn tanseilio'r bont wrth Talardd. Cytunwyd i dynnu sylw'r Cyngor Sir at y broblem. **Gweithredu: Clerc**
- 4) Derbyniwyd gwahoddiad i fynegi barn am newidiadau i ddiogelu treftadaeth.

1109 Materion ariannol:

- 1) Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol bresennol.
- 2) Rhoddwyd hawl i'r Swyddog Ariannol ofyn am help Cyfrifydd y Cynghorau Cymuned os bydd ei angen gyda'r drefn newydd o dalu Treth Incwm. Cytunwyd i dynnu sylw'r Aelod Cynulliad a'r Aelod Seneddol at y gwaith ychwanegol a diffyg arweiniad sy'n deillio o'r drefn newydd a fynir gan Lywodraeth San Steffan. **Gweithredu: Clerc**
- 3) Derbyniwyd sic £234.03 gan Hugh James a'i gwmni fel cydnabyddiaeth am y defnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru o faes parcio'r fynwent. Diolchwyd i'r Cadeirydd am ei waith yn taenu'r graean ar hyd y maes parcio.
- 4) Cytunwyd i dalu biliau'r mis.
- 5) Cytunwyd i wneud cais am grant Diffyg yn y Cyfrif Claddu pe byddai diffyg.

Gorfffen: 9.30pm